**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

14 Tachwedd 2023

**Rhoi tystiolaeth lafar yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Annwyl Mark,

Ar 2 Tachwedd 2023, rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru wybod i'r Pwyllgor na fyddech chi'n rhoi tystiolaeth lafar yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, ac y byddech yn hytrach yn darparu papur ysgrifenedig. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd eich bod wedi cytuno'n flaenorol i fod yn bresennol yn un cyfarfod o'r Pwyllgor y flwyddyn, ac y byddai hwnnw'n cyd-daro â chyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol.

Eleni, ac efallai hyd yn oed yn fwy felly nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn ymwybodol o'r heriau sydd o ran cyllid y llywodraeth, a roeddem wedi gofyn am sesiwn dystiolaeth lafar er mwyn inni allu craffu ar sut y bydd penderfyniadau'n effeithio ar y meysydd cyllidebol yr ydych chi'n dal cyfrifoldeb amdanynt o ran cysylltiadau rhyngwladol. Rydym yn siomedig na fydd hyn yn bosibl, ond rydym yn deall y rhesymau a roddwyd dros hyn.

Gan na fyddwch yn gallu bod yn bresennol yn ein sesiwn dystiolaeth ar 11 Ionawr 2024, byddem yn hoffi cael ymateb manwl i bob un o'r pwyntiau a amlinellwyd wrthych yn ein llythyr ar 25 Hydref 2023. Yn yr un modd â'r llynedd, byddem hefyd yn croesawu ymateb brys i unrhyw geisiadau gennym am ragor o wybodaeth, ar ôl i ni ystyried eich tystiolaeth ysgrifenedig ddechrau mis Ionawr 2024. Bydd hyn yn caniatáu inni adrodd ar ein canfyddiadau mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau, sef 5 Chwefror 2024.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.